**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**22 Medi 2014**

## CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

### Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law gan y cyhoedd yn y cyfnod rhwng Ebrill 1$^{af}$ 2013 a Mawrth 31$^{ain}$ 2014.

### Gwybodaeth

### Cofnodi Cwynion yn Ffurfiol

2 Cofnodir cwynion wrth i'r materion gael eu dwyn i sylw'r Gwasanaeth pan fydd aelodau'r staff yn cyflawni neu'n cymryd rhan ym musnes cyfreithlon Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

### Cwynion a ddaeth i law 1$^{af}$ Ebrill 2013 – 31$^{ain}$ Mawrth 2014

3 Dyma gofnod o'r cwynion a ddaeth i law, yr ymchwiliwyd iddynt ac a ddatryswyd:

| **Categorïau cwynion** | **Nifer y cwynion a ddaeth i law** | |
|---|---|---|
| | 2012 / 2013 | 2013 / 2014 |
| Materion y Gymraeg | 1 | 1 |
| Polisi a Gweithdrefn | 1 | 3 |
| Gyrru | 0 | 4 |
| Gweithgareddau'r Ochr Weithredol | 2 | 4 |
| Ymddygiad | 8 | 9 |
| Cyfanswm | **12** | **21** |

| Categorïau cwynion | Nifer y cwynion a gadarnhawyd | |
|---|---|---|
| | 2012 / 2013 | 2013 / 2014 |
| Materion y Gymraeg | 1 | 1 |
| Polisi a Gweithdrefn | 0 | 1 |
| Gyrru | 0 | 2 |
| Gweithgareddau'r Ochr Weithredol | 0 | 1 |
| Ymddygiad | 2 | 4 |
| Cyfanswm | **3** | **9** |

4 Dylid nodi bod peiriannau tân a cherbydau rheolwyr wedi gwneud 11,652 o deithiau 'Goleuadau Glas' wrth ymateb i ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol rhwng Ebrill 1af 2013 a Mawrth 31ain 2014.

**Gwerthfawrogiadau a ddaeth i law 1af Ebrill 2013 – 31ain Mawrth 2014**

5 Mae'n werth nodi bod 73 o lythyrau, cardiau, negeseuon e-bost, Facebook a Twitter wedi dod i law yn mynegi gwerthfawrogiad a bodlonrwydd â'r Gwasanaeth.

6 Roedd y llythyrau o werthfawrogiad yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgarwch y Gwasanaeth Tân ac Achub, ond roeddent yn dod yn fras o fewn y categorïau a ganlyn.

| **Categori** | **Y cyfanswm a ddaeth i law** |
|---|---|
| Mentrau a digwyddiadau diogelwch cymunedol | 7 |
| Ymweliadau â'r Gwasanaeth a chan y Gwasanaeth | 10 |
| Archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a larymau mwg a roddwyd | 11 |
| Gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y Ffenics a lleihau llosgi bwriadol | 5 |
| Cymorth elusennol | 3 |
| Digwyddiadau ac ymarferion yr ochrweithredol | 18 |
| Eraill, gan gynnwys ymddygiad a digwyddiadau | 19 |

7 Nodwyd bod y Gwasanaeth yn gweld cynnydd yn y gwerthfawrogiadau sy'n dod drwy'r Cyfryngau Cymdeithasu; mae hyn yn amlwg o'r negeseuon a ddaeth drwy Twitter ynglŷn â'r nosweithiau tân gwyllt lleol.

**Argymhelliad**

8 Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth a ddarperir.